



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

26/09/2018

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Adroddiad cychwynnol i Gyd-Bwyllgor GwE ar berfformiad y rhanbarth

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Cyflwyno gwybodaeth gynnar ar berfformiad y rhanbarth ar gyfer y flwyddyn addysgol 2017/18.

2.0 Cefndir ac Ystyriaethau

2.1 Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth gynnar ar berfformiad y rhanbarth ar gyfer blwyddyn addysgol 2017/2018.

2.2 Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn wahanol i'r hyn gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau sylweddol i sut yr adroddir ar fesurau perfformiad. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon, bellach nid oes cyhoeddi data cymharol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn yr ysgol, lefel yr awdurdod lleol na chonsortia. Felly y tu hwnt i gymhariaeth â chyfartaleddau cenedlaethol, nid oes unrhyw wybodaeth gymharol na meincnodol ar gael.

2.3 Pwysleisir mai gwybodaeth gychwynnol am ganlyniadau CA4 sy'n cael ei rannu ac nad oes mynediad, hyd yma, at ddata cymharol a meincnodol. Darperir diweddariad pan ddaw'r wybodaeth gyflawn i law.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.0 Goblygiadau Ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

7.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r adroddiad.

8.0 Atodiadau

8.1. Adroddiad cychwynnol i Gyd-Bwyllgor GwE ar berfformiad y rhanbarth.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf, yn rhan 4 o'r adroddiad, fod yr awdur wedi cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

